Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Mae ymchwil yn bwysig
# Sut olwg sydd ar ragoriaeth yn GIG Cymru

## Cefndir

Mae gwella gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru, gan ddefnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth o weithredu, yn hanfodol i wella ansawdd gofal a rhoi'r cyhoedd wrth galon popeth. Mae'n dra chyfarwydd i lawer bod ymchwil yn gwneud gwir wahaniaeth i wella deilliannau iechyd ac i fywydau cleifion a phobl yn ein cymunedau. Mae ymchwil iechyd a gofal ac arloesi yn hanfodol i gyflenwi a datblygu'r GIG a sefydliadau'r GIG yng Nghymru, sydd â rôl hanfodol i'w chwarae i gefnogi ymchwil.

Ariennir ymchwil yn y GIG trwy amrywiaeth o ffynonellau. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gyllidwr allweddol – mae wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i gydlynu a hwyluso ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru a darparu adnoddau i ysgogi a chefnogi ymchwil. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n cynnwys polisi (Is-adran Ymchwil a Datblygu, Llywodraeth Cymru) a hefyd rhannau amrywiol o seilwaith y mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n eu hariannu, gan gynnwys canolfannau ac unedau ymchwil, y gyfadran, canolfan dystiolaeth Cymru, y ganolfan cefnogi a chyflenwi ac Y&D y GIG.

Mae'r GIG hefyd yn denu cyllid ymchwil o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys cyllidwyr anfasnachol trwy incwm grantiau ymchwil oddi wrth adrannau llywodraeth, cynghorau ac elusennau ymchwil, yn ogystal ag incwm masnachol ar gyfer ymchwil oddi wrth bartneriaid yn y diwydiant. Mae'r ffrydiau ariannu amrywiol hyn yn cydweithio i gryfhau cymhwysedd a gallu'r GIG. Hefyd, mae'r GIG yn cefnogi ymchwil trwy ddarparu adnoddau fel llety a chyfleusterau, yn ogystal â chefnogi gweithgareddau bob dydd staff GIG sy'n cefnogi'r arbenigwyr ymchwil yn y fan a'r lle.

Mae'r ddogfen hon wedi'i datblygu trwy broses o gyd-greu gyda rhanddeiliaid allweddol, wedi'i hwyluso gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae'n amlinellu sut olwg sydd ar 'ragoriaeth ymchwil' o fewn sefydliadau'r GIG yng Nghymru, lle y mae ymchwil yn cael ei chofleidio, yn dod yn rhan o wasanaethau ac yn rhan graidd o ddiwylliant y sefydliad.

Er mwyn ysgogi rhagoriaeth, dylai sefydliadau'r GIG fod â diwylliant positif o welliant parhaus trwy ymchwil. Mae hyn  wedi'i alinio â'r *Ddyletswydd Ansawdd* a ddaeth i rym fis Ebrill 2023 fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2020.

Bydd cymhwysedd a gallu ymchwil yn wahanol rhwng sefydliadau a chrëwyd y ddogfen hon i fod yn berthnasol i bob sefydliad GIG yng Nghymru. Mae yna saith bwrdd iechyd lleol a thair ymddiriedolaeth GIG sy'n llunio'r GIG yng Nghymru, yn ogystal â dau awdurdod iechyd arbenigol a phartneriaeth cydwasanaethau, ac mae pob un o'r sefydliadau hyn yn cefnogi ymchwil.

Gan fod y GIG yn rhan o ecosystem ehangach, mae'n hanfodol bod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a sefydliadau'r GIG yn adeiladu ar weithgareddau sydd eisoes yn bodoli a chydweithio ar draws y nodweddion a amlinellir yn y ddogfen hon i gefnogi'r GIG i gryfhau ei swyddogaeth ymchwil a datblygu (Y&D). Mae hyn yn arbennig o bwysig nawr i sicrhau bod ymchwil yn chwarae rôl hanfodol mewn cefnogi'r GIG i esblygu ac addasu i alwadau yn y dyfodol.

## Pam ddylai ymchwil fod yn bwysig i boblogaeth Cymru ac i'r GIG?

| |
|---|
| Mae ymchwil yn rhoi'r cyfle i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth fanteisio ar driniaethau a gwasanaethau newydd, a fydd yn gwella'u hiechyd a'u llesiant, ac yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd yn y boblogaeth gyffredinol. |
| Mae sefydliadau'r GIG sy'n mynd ati i gymryd rhan mewn ymchwil yn gweld gwell deilliannau iechyd a chyfraddau marwolaethau is, nid yn unig i'r cleifion hynny sy'n cymryd rhan mewn ymchwil, ond i bawb. |
| Mae ymchwil yn creu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn darparu tystiolaeth ar gyfer safonau'r GIG ac yn helpu sefydliadau i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o gyflenwi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwell deilliannau economeg iechyd. |
| Mae ymchwil yn darparu cyfleoedd i ddatblygu staff a rolau swyddi uwch sy'n helpu â recriwtio a chadw staff, yn ogystal â datblygu arweinwyr a meddylwyr beirniadol. |
| Mae ymchwil yn arwain at fuddion economaidd trwy ddenu cyllid anfasnachol ac incwm masnachol sy'n gallu meithrin cymhwysedd ymchwil gwasanaethau ar y rheng flaen a gwasanaethau cefnogi eraill, yn ogystal â sicrhau bod triniaethau a thechnolegau newydd ar gael am ddim. |
| Mae ymchwil yn hoelen wyth hanfodol i sicrhau a chynnal statws Prifysgol (Bwrdd Iechyd) ac yn alluogwr allweddol ar gyfer GIG Cymru i gyflenwi '*Cymru Iachach*'. |

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Mae ymchwil yn gydran sylfaenol o iechyd a gofal bob dydd ac mae'n hanfodol i ddatblygu pob agwedd ar GIG Cymru. Mae'r ddogfen hon, felly, yn berthnasol i bawb sydd a wnelo â dylunio, rheoli a chyflenwi gofal iechyd yn GIG Cymru, gan gynnwys byrddau'r GIG a phob gweithredwr, y rheini sy'n gyfrifol am ddatblygu strategaeth, arweinwyr clinigol, arweinwyr proffesiynol, penaethiaid gwasanaethau, rheolwyr gweithredol yn ogystal â staff ymchwil penodol fel Cyfarwyddwyr ac arweinwyr Y&D, rheolwyr ymchwil a'r gweithlu ymchwil.

Mae'r fframwaith hwn hefyd yn berthnasol i'r cyhoedd fel y rheini sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal oddi wrth GIG Cymru.

Mae hefyd yn berthnasol i randdeiliaid allweddol sy'n gweithio mewn partneriaeth â GIG Cymru sydd â gweledigaeth wedi'i halinio ar gyfer ymchwil a chydstrategaethau Y&D fel rhan o'r ecosystem gyfan sy'n galluogi ymchwil iechyd a gofal trwy ymdrech ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, adrannau llywodraeth, darparwyr addysg uwch, asiantaethau a chyllidwyr ymchwil, sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau'r sector cyhoeddus, cwmnïau gwyddor bywyd a'u cyrff cynrychioliadol.

## Pa ymchwil y mae'n berthnasol iddi?

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i ymchwil iechyd ar draws pob arbenigedd a sector sydd o fewn cyfrifoldeb GIG Cymru fel rhan o'r ecosystem gyfan, gan gynnwys, ymhlith eraill:

- gofal sylfaenol, gofal eilaidd, iechyd cyhoeddus, gwasanaethau cymunedol, ymchwil iechyd mewn lleoliadau gofal cymdeithasol a gofal integredig;
- ymchwil fasnachol ac anfasnachol, gan gynnwys treialon clinigol, astudiaethau arsylwadol , gwyddoniaeth darganfod a meddygaeth arbrofol, iechyd cyhoeddus, ymchwil drosiadol a chymhwysol; ac
- ymchwil i gefnogi gwaith llunio polisi, ymchwil academaidd mewn meysydd clinigol ac ymchwil i wasanaethau a llwybrau gofal y GIG.

## Sut dylid defnyddio'r ddogfen hon?

- I ddarparu canllawiau ar gynnwys craidd Y&D y GIG a/neu strategaethau a chynlluniau gweithredu Y&D ac arloesi.
- I ddarparu fframwaith ar gyfer hunanasesiad sefydliadol ac adolygiad gan gymheiriaid i gadarnhau aeddfedrwydd sefydliad o ran ei drefniadau a'i ddull o fynd ati i gefnogi ymchwil effeithiol, o ansawdd uchel.
- I gefnogi gwell aliniad rhwng y seilwaith cenedlaethol a lleol ar gyfer Y&D, gan gynnwys nodi cyfleoedd 'unwaith i Gymru' yng nghyd-destun y strategaeth genedlaethol, a/neu rannu arfer da lleol.
- I gefnogi trafodaethau strategaethol ehangach rhwng yr Is-adran Ymchwil a Datblygu, Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG mewn cyfarfodydd perfformiad.
- I ddarparu un ddogfen y gellir ei defnyddio'n gyson ar draws amrywiaeth o ganllawiau a gweithgareddau cenedlaethol, er mwyn symleiddio prosesau adrodd, er enghraifft fframwaith cynllunio'r GIG (a chynlluniau gwaith cysylltiedig, fel Cynlluniau Tymor Canolig Integredig), cyhoeddi Cylchlythyrau Iechyd Cymru, a Gweithrediaethy GIG.
- I ddarparu sail ar gyfer rhaglen waith i gyflawni'r dyheadau yn y ddogfen hon, gan fabwysiadu dull partneriaeth o weithredu gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a sefydliadau GIG yn cydweithio.

## Nodweddion sefydliad GIG sy'n cefnogi ymchwil

Mae nodweddion sefydliad GIG sy'n cefnogi ymchwil wedi'u trefnu dan ddeg piler, sydd wedi'u crynhoi yn Diagram 1. Bydd sefydliadau GIG cefnogol yn gweithio i gofleidio pob piler a'r nodweddion y maent yn eu cynnwys gyda'i gilydd, gan eu bod yn chwarae rhan bwysig mewn sicrhau bod ymchwil yn cael ei hintegreiddio i mewn i wasanaethau ac yn cyfrannu at y system gyfan, a thrwy hynny cyflawni rhagoriaeth.

**Diagram 1:**
**Y deg piler sy'n amlinellu nodweddion sefydliad GIG sy'n cefnogi ymchwil**




Mae yna hefyd nifer o themâu trawsbynciol sydd wrth wraidd y deg piler, sy'n cynnwys y gofynion statudol i roi sylw iddynt a'u hystyried wrth ddatblygu polisi a chynlluniau gweithredu. Dygir sylw at y themâu trawsbynciol hyn yn Diagram 2 lle nodir y rheini sydd fwyaf perthnasol i'r agenda ymchwil. Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn ychwanegiad diweddar ac mae'n pwysleisio'i bod yn bwysig i sefydliadau sy'n cefnogi ymchwil fabwysiadu ffordd system-eang o weithio i ddarparu gofal iechyd diogel, effeithiol, amserol, effeithlon, teg, sy'n canolbwyntio ar y person yng nghyd-destun diwylliant sy'n dysgu.

**Diagram 2:**
**Themâu trawsbynciol sydd wrth wraidd deg piler sefydliad GIG sy'n cefnogi ymchwil**




Manylir ar bob un o'r deg piler isod, ynghyd â nodweddion sefydliad GIG sy'n cefnogi ymchwil.

## 1. Strategaeth:

Bydd sefydliadau cefnogol:

1.1. Yn meddu ar weledigaeth glir ar gyfer ymchwil a strategaethau Y&D uchelgeisiol, gyda chynlluniau gweithredu sydd wedi'u halinio a gwaith monitro cynnydd parhaus. Bydd strategaethau:
  - yn cael eu cydgynhyrchu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y claf/ y cyhoedd;
  - yn amlinellu gweledigaeth glir;
  - yn dangos cysylltiad clir â strategaethau a chynlluniau gwasanaeth sefydliadol ehangach;
  - yn dangos eu bod wedi'u halinio â'r cyfleoedd y mae strategaethau Y&D cenedlaethol a ledled y DU yn eu cyflwyno;
  - wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd, ochr yn ochr â chynllun gweithredu sy'n gaeth i amser;
  - yn cael eu hybu'n eang i staff a'r cyhoedd.

1.2. Yn dangos cysylltiad clir rhwng eu strategaeth a'u cynlluniau gweithredu a dangosyddion lleol a chenedlaethol allweddol ar gyfer perfformiad ymchwil.

1.3. Yn sicrhau bod Y&D yn cael ei gynrychioli a'i fod i'w weld yn glir o fewn Cynllun Tymor Canolig Integredig y sefydliadau GIG.

## 2. Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Bydd sefydliadau cefnogol:

2.1. Yn dangos ymrwymiad clir y bwrdd i ymchwil, gyda thystiolaeth o aelodau'n cyfrannu at osod yr agenda, asesu perfformiad ac effaith.

2.2. Yn penodi aelod annibynnol o'r bwrdd/ eiriolwr dros ymchwil, i fod yn llysgennad ac i hybu ymchwil ar y bwrdd a ledled y sefydliad.

2.3. Yn cefnogi ymchwil ar bob lefel, trwy godi ymwybyddiaeth ymhlith cyfarwyddwyr, gweithredwyr, dirprwyon, rheolwyr uwch a gweithredol y

GIG i sicrhau ymrwymiad a thrwy hybu ymchwil trwy strwythurau pwyllgorau sydd eisoes yn bodoli.

2.4. Yn penodi Arweinydd Gweithredol penodol ar gyfer ymchwil a Chyfarwyddwr Y&D penodol, sydd ag amser wedi'i neilltuo'n benodol i oruchwylio'r strategaeth Y&D ac i ddarparu arweinyddiaeth strategol.

2.5. Yn creu pwyllgor penodol sydd wedi'i weirio i broses lywodraethu'r sefydliad GIG lle trafodir ymchwil yn aml, gyda chynrychiolwyr o hyd a lled y sefydliad ac aelodau cyhoeddus, i gynllunio, goruchwylio ac adrodd ar ymchwil.

2.6. Yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd yn erbyn strategaeth Y&D y sefydliad, gan gynnwys adrodd ar gynnydd ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus, er enghraifft, trwy adroddiad blynyddol ar gyfer y cyhoedd sy'n amlinellu gweithgareddau ac incwm Y&D.

## 3. Partneriaeth a Chydweithredu

Bydd sefydliadau cefnogol:

3.1. Yn sefydlu gwaith rhyngddisgyblaethol cryf o fewn y sefydliad rhwng adrannau ac arbenigeddau; ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol; a chysylltiadau â thystiolaeth ar draws ymchwil, hyfforddi ac addysgu, gwella gwasanaeth ac arloesi.

3.2. Yn sefydlu partneriaethau traws-sector ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol i gynyddu cyrraedd, lefel ac effaith ymchwil. Yn benodol, fe fydd yna dystiolaeth o alinio gweledigaeth, cydstrategaethau Y&D, memoranda cyd-ddealltwriaeth, cynlluniau cyflawnadwy ac adolygiadau rheolaidd o gynnydd gyda:

- Darparwyr addysg uwch, gan gydweithio i gynnal gwaith partneriaeth integredig rhwng y GIG a'r byd academaidd, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, fel rhan o'r piler ymchwil a datblygu ar gyfer statws Bwrdd Iechyd Prifysgol
- Asiantaethau a chyllidwyr ymchwil (gan gynnwys cynghorau ymchwil a sefydliadau'r trydydd sector)
- Sefydliadau'r sector cyhoeddus, trwy weithio ar draws ffiniau sefydliadol a meithrin dulliau hyblyg o weithredu i alluogi symud staff yn haws. Gall hyn gynnwys gweithio gyda sefydliadau eraill y GIG, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a'r Hybiau Cydlynu Arloesi a Gwella Rhanbarthol
- Cwmnïau a chyrff cynrychioliadol gwyddor bywyd fel rhan o gynlluniau cydweithredu â'r diwydiant ledled Cymru a'r DU, gan ddatblygu systemau effeithlon i gefnogi ymchwil fasnachol.

3.3. Yn sefydlu partneriaethau â byrddau cynghori arbenigol allanol ac arweinwyr barn ryngwladol allweddol i ddod â mewnwelediad a safbwynt gwahanol; bod yn gyfeillion beirniadol ac yn bartneriaid

cydweithredol; a helpu ymchwilwyr y GIG i feincnodi yn erbyn ymchwil flaenllaw yn rhyngwladol yn eu meysydd.

## 4. Cefnogi Ymchwil

Bydd gan sefydliadau cefnogol:

4.1. Swyddfeydd a/ neu adrannau Y&D i gefnogi gwaith datblygu ymchwilwyr, llywodraethu ymchwil a chefnogi gwaith sefydlu, cyflenwi a sicrhau ansawdd sy'n gysylltiedig ag astudiaethau.

4.2. Cefnogaeth ar gyfer ymchwil o fewn adrannau a chyfarwyddiaethau, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer amser staff a gwasanaethau cefnogi'r GIG ar gyfer ymchwil, er enghraifft radioleg, patholeg, fferylliaeth, cyllid a'r gweithlu a datblygu sefydliadol.

4.3. Y gallu i asesu cymhwysedd a gallu sefydliadol i ymgymryd ag ymchwil fel bod modd lletya neu noddi astudiaethau.

4.4. Gwasanaethau llyfrgell ffisegol a digidol â llawer o adnoddau ar gael iddynt, lle y gall staff gyrchu gwybodaeth am ddeilliannau ymchwil i ddarparu sail ar gyfer arfer gorau.

4.5. Gofod, cyfleusterau ac offer addas ar gael iddynt i gynnal ymchwil, gyda datblygiad parhaus wedi'i alluogi trwy strategaeth cyfleusterau ac ystadau'r sefydliad.

4.6. Seilwaith Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg Gwybodaeth effeithiol ac effeithlon a systemau i gefnogi ymchwil, gydag aliniad â thystiolaeth i strategaethau digidol sefydliadol a strategaethau cenedlaethol, gan gynnwys y rheini y mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n eu cynhyrchu, er enghraifft, data ategol a meddalwedd sy'n cydymffurfio ag egwyddorion FAIR (Canfyddadwy, Hygyrch, Rhyngweithredol, Ailddefnyddiadwy) i ganiatáu eu hailadrodd, eu hailgynhyrchu a'u hailddefnyddio'n llawn.

4.7. Prosesau ar waith i gyfrannu at argaeledd data iechyd at ddibenion ymchwil, gan gynyddu adnoddau data ar gyfer data mynediad diogel, trwy amgylcheddau ymchwil y gellir ymddiried ynddynt, a chefnogi ymchwil fwy amrywiol y mae gwasanaethau y mae data'n eu gyrru'n ei galluogi.

4.8. Ymrwymiad i gofleidio technoleg sy'n dod i'r fei ac i ymchwil y mae data ac offerynnau digidol yn ei galluogi, gan fanteisio ar gryfderau asedau data iechyd GIG Cymru a'r DU i ganiatáu datblygu a chyflenwi ymchwil o ansawdd uwch, gan gydymffurfio â rhwymedigaethau diogelu data o ran cynnal ymchwil.

## 5. Cyflenwi Ymchwil

Bydd sefydliadau cefnogol:

5.1. Yn rhoi rhaglenni cefnogi cyflenwi ymchwil ledled Cymru a'r DU ar waith mewn partneriaeth ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

5.2. Yn mabwysiadu dulliau Cymru'n Un o weithredu (lle bo sefydliadau Cymru'n gweithredu fel cymundod cenedlaethol) wrth gyflenwi ymchwil i alluogi symleiddio prosesau, lleihau dyblygu a galluogi cysonder ledled Cymru, gan gynnwys dulliau cenedlaethol o weithredu ar gyfer cymeradwyo ymchwil, sefydlu astudiaeth yn gyflym a chyflenwi.

5.3. Yn rheoli portffolio'r sefydliad GIG yn strategol, er mwyn arwain a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ymchwil, gan fanteisio ar gryfderau lleol a grwpiau ymchwil, blaenoriaethau sefydliadol a chymhwysedd a gallu ymchwil.

5.4. Yn cefnogi ymchwil sy'n hynod berthnasol i bolisi ac sydd wedi'i halinio â blaenoriaethau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, ac anghenion iechyd poblogaeth leol y sefydliad GIG.

5.5. Yn gosod targedau cyflenwi astudiaeth realistig, ac yn sicrhau bod ymchwil yn cael ei chyflenwi'n brydlon ac yn unol â'r targed fel y cytunir arno â noddwyr a bod perfformiad astudiaethau unigol yn cael ei fonitro, gan sicrhau bod data rheoli'r astudiaeth yn cael eu cofnodi'n fanwl gywir a'u monitro'n aml.

5.6. Yn adolygu llwyddiant y sefydliad wrth gyflenwi ymchwil ar draws y portffolio'n rheolaidd, gan ddeall y cyd-destun gyda gwybodaeth leol a meincnodi â chymheiriaid yn y DU.

## 6. Cyllid

Bydd sefydliadau cefnogol:

6.1. Yn sicrhau cyllid digonol oddi wrth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i sefydlu swyddogaeth Y&D gynaliadwy i dalu am ddatblygu a chyflenwi ymchwil, ac yn rheoli'r cyllid yn dryloyw, yn unol â Pholisi Cyllid Y&D Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

6.2. Yn cynnwys Y&D yn strategaethau a chynlluniau ariannol y sefydliad.

6.3. Yn meddu ar gynlluniau ariannol ar gyfer Y&D, gyda rhagolygu da, anfonebu prydlon a rheoli risg yn gymesur.

6.4. Wedi ymrwymo i gynhyrchu incwm ymchwil ar gyfer astudiaethau anfasnachol (h.y. oddi wrth gyllidwyr ymchwil, cynghorau ymchwil a sefydliadau'r trydydd sector) ac astudiaethau masnachol (h.y. oddi wrth bartneriaid y diwydiant) i hwyluso meithrin cymhwysedd.

6.5. Yn helpu ymchwilwyr sy'n bodoli a darpar ymchwilwyr i sicrhau grantiau oddi wrth amrywiaeth eang o ffynonellau ariannu i fwrw ymlaen â'u hastudiaethau, gan arwain at ddeilliannau effeithiol, o ansawdd uchel a chyhoeddiadau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid mewn cyfnodolion rhyngwladol.

6.6. Yn sicrhau y darperir cymorth ariannol i gynghori ar gostau sy'n berthnasol i ymchwil fasnachol ac anfasnachol ac i fonitro'r holl gostau hyn.

## 7. Cymhwysedd a Gallu Gweithlu'r GIG

Bydd sefydliadau cefnogol:

7.1. Yn hybu Y&D yn strategaeth y gweithlu a datblygu sefydliadol i hwyluso ymchwil a chydnabod buddion bod yn sefydliad GIG sy'n cefnogi ymchwil er mwyn denu staff dawnus.

7.2. Yn cyflenwi cynlluniau gweithlu'r GIG lle bo ymchwil yn gydran allweddol a fydd yn cynnwys cynlluniau i:

- godi ymwybyddiaeth o ymchwil a gyrfaoedd ymchwil trwy amrywiaeth o fecanweithiau i ddenu mwy o bobl i yrfaoedd ymchwil, a hefyd darparu amrywiaeth mewn rôl, cyfoethogi swydd a hwyluso cadw staff (e.e. trwy raglen cynefino staff a hyfforddiant gorfodol).
- meithrin cymhwysedd a gallu ymchwil ar gyfer yr holl staff trwy gefnogi datblygiad proffesiynol o ran gwybodaeth a sgiliau ymchwil (e.e. trwy PADR, mentora a chyfeirio at gyfleoedd hyfforddi cenedlaethol a ddarperir trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a darparwyr hyfforddiant eraill ledled Cymru a'r DU).
- sicrhau bod holl staff y GIG yn cael y cyfle i gefnogi ymchwil trwy gynnwys ymchwil ym mhob un o swydd-ddisgrifiadau'r GIG a bod ag amser wedi'i ddiogelu ar gyfer ymchwil i staff y GIG trwy gynllunio swyddi a thrwy PADR.
- cynnal y gefnogaeth ar gyfer ymchwil yng ngweithlu'r GIG yn ystod adegau o argyfyngau clinigol fel argyfyngau iechyd cyhoeddus brys a phwysau'r gaeaf, lle y dylid canolbwyntio gweithgarwch ymchwil ar anghenion clinigol.
- gwella cymhwysedd cyflenwi ymchwil ymhlith y gweithlu, gan gynnwys y gallu i gefnogi treialon clinigol, gan sicrhau llywodraethu clinigol da ac arfer gorau.
- mabwysiadu polisïau cenedlaethol, gan alluogi rhoi'r gweithlu Y&D ar waith yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar draws ffiniau sefydliadau'r GIG a mabwysiadu dulliau hyblyg o drin contractau staff â sefydliadau sy'n bartneriaid er mwyn hybu gweithio ar draws sefydliadau.
- hwyluso sicrhau bod cefnogaeth ar gael i staff ar bob lefel sy'n dymuno gwneud ymchwil, gan gynghori ar sut i lywio trwy'r amgylchedd Y&D a chyfeirio at ffynonellau gwybodaeth mewnol ac allanol (e.e. am ffrydiau ariannu, datblygu protocol, ysgrifennu ceisiadau am gyllid, cefnogaeth ystadegol, dyluniad a dulliau ymchwil).
- archwilio cyfleoedd ar gyfer buddsoddi mewn cyd-rolau clinigol ac academaidd mewn arbenigeddau a disgyblaethau sydd wedi'u halinio â chynlluniau lleol a chenedlaethol, mewn partneriaeth â phrifysgolion.

## 8. Cynnwys y Cyhoedd a'u Cyfranogiad

Bydd sefydliadau cefnogol:

8.1. Yn meddu ar dystiolaeth o ymrwymiad i fynd ati'n rhagweithiol i gynnwys y cyhoedd a'u cael i gyfranogi wrth ddatblygu a chyflenwi astudiaethau ymchwil lle gwerthfawrogir profiad y cyhoedd a lle y gallant chwarae amrywiaeth o rolau, gan ychwanegu gwerth sylweddol at ymchwil e.e. datblygu strategaeth, gosod blaenoriaethau ymchwil, bod yn aelod o grŵp llywio astudiaeth, cymryd rhan yn yr ymchwil a llunio cynlluniau i rannu darganfyddiadau ymchwil.

8.2. Yn dyrannu cyllideb ddigonol ar gyfer cynnwys y cyhoedd, gan sicrhau bod cyfranogwyr cyhoeddus yn cael eu cydnabod am eu hamser, eu profiad personol a'u cyfraniad, ar ffurf taliad ariannol neu ddulliau eraill o'u gwobrwyo a'u cydnabod, yn unol â chanllawiau arfer gorau.

8.3. Yn sicrhau bod yr holl ymchwil y mae'r sefydliad GIG yn ei chefnogi'n canolbwyntio ar bobl, gan gefnogi ymchwil sy'n ei gwneud yn haws i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau'r cyhoedd fanteisio ar ymchwil sy'n berthnasol iddyn nhw a chymryd rhan mewn gwaith ei dylunio, gan ddysgu'n uniongyrchol o brofiad y cyhoedd.

8.4. Yn mabwysiadu'r dull cenedlaethol o fynd ati i hybu cyfleoedd ymchwil i staff a'r cyhoedd, gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol fel sefydliadau'r trydydd sector i hybu cyfleoedd ymchwil i gymunedau o bobl â phrofiadau personol; a'u cyfeirio at bortffolio ymchwil y sefydliad a GIG Cymru fel eu bod yn gallu manteisio arno, er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n cyfranogi.

8.5. Yn sicrhau bod y cyhoedd sy'n cael eu cynnwys yn ymchwil y sefydliad GIG yn cynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu gyda chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ysgogwyr allweddol, ac yn datblygu dulliau hyblyg o fynd ati i gynnwys y cyhoedd er mwyn galluogi cynrychiolaeth gynhwysol e.e. mynd i'r afael â rhwystrau rhag cynnwys a chyfranogiad oherwydd iaith a lefelau llythrennedd ac ati.

8.6. Yn mabwysiadu Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd, gan alluogi arfer da wrth gynnwys y cyhoedd.

8.7. Yn hwyluso manteisio ar hyfforddiant cenedlaethol mewn cynnwys y cyhoedd ar gyfer staff sydd wrthi'n gwneud ymchwil, er mwyn codi ymwybyddiaeth o sut i gynnwys y cyhoedd yn effeithiol mewn ymchwil.

8.8. Yn sicrhau cynrychiolaeth weithgar yng Nghynghrair Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

## 9. Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Bydd sefydliadau cefnogol:

9.1. Yn cynnwys ymchwil yng nghynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu'r sefydliad GIG i ddangos gwerth a phwysigrwydd ymchwil, gan ddathlu llwyddiannau a chynyddu'r proffil ymhlith staff a'r cyhoedd.

9.2. Yn mabwysiadu'r dull cenedlaethol o fynd ati i gyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer ymchwil yng Nghymru, i sicrhau bod y negeseuo'n glir ac yn gyson.

9.3. Yn sicrhau cynrychiolaeth weithgar yng Nghynghrair Cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

9.4. Yn datblygu cynlluniau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymchwil ymhlith cymunedau amrywiol lleol, gan gydweithio ag ymchwilwyr a sicrhau yr ymgysylltir yn rhagweithiol â grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector a'u cymunedau lleol.

9.5. Yn cynnwys ymchwil yng nghynlluniau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad GIG, gydag ymrwymiad cryf i fynd ati i ymgysylltu â grwpiau penodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy ymchwil.

9.6. Yn mabwysiadu ymgyrchoedd ymchwil cenedlaethol ac yn cysylltu ymchwil leol ag ymchwil genedlaethol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i sicrhau'r effaith fwyaf posibl.

## 10. Effaith Ymchwil

Bydd sefydliadau cefnogol:

10.1. Yn ymrwymo i gyhoeddi darganfyddiadau ymchwil mewn cyhoeddiadau mynediad agored, gan gynnwys ymrwymiad i sicrhau bod ymchwilwyr yn dilyn polisïau mynediad agored y rheini sy'n ariannu eu gwaith, i sicrhau bod deilliannau ymchwil ar gael yn rhwydd ac annog defnyddio darganfyddiadau ymchwil.

10.2. Â systemau ar waith i alluogi ymchwil o Gymru, y DU a thu hwnt i ddylanwadu ar arfer a'r ffordd o ddarparu gwasanaethau yn barhaus i wella a chyfoethogi ansawdd gwasanaethau.

10.3. Yn datblygu cynlluniau i sicrhau bod ymchwil yn cael ei chefnogi pan fo gwasanaeth yn cael ei ailddylunio a'i bod yn darparu sail ar gyfer dylunio modelau newydd o ddarparu gwasanaeth ar sail deilliannau ymchwil genedlaethol, DU-eang a rhyngwladol.

10.4. Yn gweithio gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddatblygu mecanweithiau ar gyfer mesur gwerth economaidd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ymchwil a'i heffaith.

## Rhoi’r ddogfen hon ar waith

Defnyddir y ddogfen hon at y dibenion a ddisgrifir yn y cyflwyniad.

Mabwysiadir dull cryf o weithredu seiliedig ar bartneriaeth, gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a sefydliadau’r GIG yn cydweithio i gyflawni nodweddion sefydliadau sy’n cefnogi ymchwil.

Bydd rhaglenni i gefnogi ei rhoi ar waith a monitro cynnydd yn darparu’r sail ar gyfer rhaglen waith i gyflawni’r nodweddion allweddol y manylir arnynt ar draws y deg piler.

Gorffennaf 2023